**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**7 Tachwedd 2023**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (‘Deddf 2016’) yn darparu’r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, mae’n darparu ystod eang o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ogystal â phwerau eraill iddynt wneud is-ddeddfwriaeth.

1.2 Mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau’r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023. Mae’r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwybodaeth ychwanegol (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost pob gwasanaeth) y mae rhaid ei dangos ar bob cofnod yn y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau a gynhelir gan y rheoleiddiwr gwasanaethau, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae’r Rheoliadau hefyd yn darparu mecanwaith i AGC gasglu’r wybodaeth hon gan ddarparwyr gwasanaethau newydd neu ddarparwyr gwasanaethau presennol ac i’w hysbysu pan fo’r wybodaeth hon yn newid.

1.3 Mae’r gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau yn cynnwys cofnod o’r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau eirioli, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu a gwasanaethau lleoli oedolion.

1.4 Gosodir y rheoliadau hyn gerbron y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Nid oes materion penodol wedi eu nodi.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae’r pwerau sy’n galluogi gwneud Rheoliadau’r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 wedi eu cynnwys o fewn adrannau 38(2), 6(1)(d), 10(2) a 27 (1) o Ddeddf 2016. Ceir manylion pellach isod:

- Mae adran 38(2) o Ddeddf 2016 yn bŵer i wneud rheoliadau sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwybodaeth ychwanegol y mae rhaid ei dangos yn y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.
- Mae adran 6(1)(d) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwybodaeth ychwanegol o fewn cais i gofrestru ag AGC i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

- Mae adran 10(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gwybodaeth ychwanegol i'w cynnwys mewn datganiad blynyddol.
- Mae adran 27(1) yn bŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion ar ddarparwr gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Deddf 2016 yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i gynnal a chyhoeddi cofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Diben y Rheoliadau hyn yw gorfodi cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig yng Nghymru ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Mae'r gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau yn rhoi gwybodaeth i gyfeiriadur ar-lein cyhoeddus AGC, sy'n darparu'r wybodaeth allweddol am wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru i'r cyhoedd.

4.2 Bydd ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau yn galluogi i aelodau o'r cyhoedd gysylltu â gwasanaethau petai ganddynt gwestiynau neu bryderon. Mae hefyd yn cynyddu atebolrwydd a gwelededd darparwyr gwasanaethau.

4.3 Er bod AGC eisoes yn gofyn am fanylion cyswllt gan ddarparwyr gwasanaethau ac yn ceisio'u caniatâd i gyhoeddi hynny yn ei gyfeiriadur ar-lein, rydym yn dymuno gwneud hyn yn ofyniad gorfodol er mwyn eglurder a chysondeb.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y Rheoliadau hyn rhwng 15 Mai a 6 Awst 2023: [https://www.llyw.cymru/rheoleiddio-gwasanaethau-preswyl-ysgolion-arbennig](https://www.llyw.cymru/rheoleiddio-gwasanaethau-preswyl-ysgolion-arbennig)

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### <u>Opsiynau</u>

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried wrth ddadansoddi costau, manteision a risgiau ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi manylion cyswllt ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Y rhain yw:

- **Opsiwn un: gwneud dim – peidio â chreu rheoliadau i ragnodi gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'n orfodol i AGC gyhoeddi rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Byddai AGC yn parhau i ofyn caniatâd gan ddarparwyr gwasanaethau i gyhoeddi rhif ffôn ar gyfer pob gwasanaeth ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.

- **Opsiwn dau: creu'r rheoliadau sy'n gorfodi cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

O dan yr opsiwn hwn, byddai Rheoliadau yn cael eu creu o dan adran 38 o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (AGC) gyhoeddi rhif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.

Byddai'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau Cofrestru") a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") i alluogi AGC i gasglu rhif ffôn a chyfeiriad e-bost gan bob ceisydd wrth iddynt gofrestru, a chan ddarparwyr gwasanaethau presennol.

Byddai'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 3 i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau roi gwybod i AGC petai rhif ffôn neu e-bost y gwasanaeth yn newid. Byddai hefyd yn gwneud newidiadau cyfatebol i –

- Reoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019; a
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

## Costau

### Opsiwn un: gwneud dim – peidio â chreu rheoliadau i ragnodi gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau

Ni fyddai costau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn gan ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

### Opsiwn dau: creu'r rheoliadau sy'n gorfodi cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau

Er mwyn gweithredu'r newidiadau a ddisgrifir yn y Rheoliadau hyn, mae AGC wedi cynghori y byddai angen diweddaru eu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, CaSSI. CaSSI yw cronfa ddata AGC ar gyfer data cofrestru, gweithgarwch rheoleiddiol a gwybodaeth a gasglwyd. Mae'r holl wybodaeth a gesglir trwy lwyfan diogel ar-lein AGC, AGC Ar-lein, yn bwydo yn uniongyrchol i CaSSI, ynghyd â'r wybodaeth a roddir i mewn gan staff AGC. Bydd CaSSI hefyd yn bwydo data cofrestru i wefan AGC er mwyn poblogi cyfeiriadur gwasanaethau gofal AGC.

Dyma'r diweddariadau gofynnol:

- Adolygu 5 trosglwyddiad ar-lein rhwng AGC Ar-lein a CaSSI, gan gynnwys gwaith cysylltiedig o drosglwyddo data yn gyflym;
- Adolygu AGC Ar-lein i egluro pa wybodaeth sydd i'w chyhoeddi yng Nghyfeiriadur AGC;
- Adolygu AGC Ar-lein i orfodi darparwyr gwasanaethau i ddiweddaru manylion coll ar y proffiliau wrth fewngofnodi.
- Adolygu gwaith dros nos CaSSI sy'n diweddaru Cyfeiriadur AGC i gyfeirio at ddata a rhesymeg newydd.
- Adolygu'r Cyfeiriadur ar wefan AGC i arddangos data ychwanegol.

Mae AGC yn amcangyfrif mai'r gost i wneud hyn fydd tua £10,000.

Bydd mynnu bod manylion cyswllt yn cael eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau yn creu arbedion mewn perthynas ag amser AGC. Mae sicrhau bod manylion cyswllt gwasanaeth ar gael i'r cyhoedd yn golygu na fydd angen i AGC gael caniatâd gan ddarparwyr i rannu'r wybodaeth hon. Bydd hyn yn lleihau'r ymdrech â llaw i dîm Gwybodaeth a Dadansoddi Data AGC wrth drin ceisiadau dyddiol am wybodaeth (er enghraifft, rhestrau o wasanaethau a manylion cyswllt). Bydd hefyd yn arbed amser i dîm Cyfathrebu AGC na fydd angen anfon e-byst at ddarparwyr gwasanaethau mwyach ar ran adrannau eraill Llywodraeth Cymru neu sefydliadau allanol oherwydd materion diogelu data wrth rannu'r wybodaeth hon.

Mae darparwyr gwasanaethau eisoes yn cyflwyno eu manylion cyswllt i AGC at ddibenion cofrestru eu gwasanaethau. Felly, nid ydym yn rhag-weld y bydd y

newidiadau hyn yn creu unrhyw gostau ychwanegol i ddarparwyr. Mae 31% o gyfeiriadau e-bost gwasanaethau a gyflwynir i AGC yn cynnwys enwau (fel enw'r rheolwr neu Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth). O'r herwydd, efallai y bydd darparwyr gwasanaethau yn dymuno diweddaru eu cyfeiriadau e-bost i enw mwy generig er mwyn osgoi cyhoeddi gwybodaeth bersonol. Efallai y bydd cost fach o ran amser i ddarparwyr wneud hyn a diweddaru'r wybodaeth hon gyda AGC.

Gallai ychwanegu cyfeiriadau e-bost at y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau arwain at gynnydd mewn negeseuon e-bost gwe-rwydo neu ymosodiadau seiber. Yn ôl Arolwg Toriadau Seiberddiogelwch 2022[1] gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, nododd 39% o fusnesau'r DU ymosodiad seiber. Mae'r adroddiad yn nodi:

*Of the 39% of UK businesses who identified an attack, the most common threat vector was phishing attempts (83%). Looking at organisations reporting a material outcome, such as loss of money or data, gives an average estimated cost of all cyber attacks in the last 12 months of £4,200. Considering only medium and large businesses; the figure rises to £19,400. We acknowledge the lack of framework for financial impacts of cyber attacks may lead to underreporting.*

Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy atgoffa darparwyr gwasanaethau am yr adnoddau sydd ar gael ar seibergadernid drwy sianeli cyfathrebu AGC.

**Manteision**

**Opsiwn un: gwneud dim – peidio â chreu rheoliadau i ragnodi gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

Efallai y byddai'n well gan rai darparwyr gwasanaethau gadw rheolaeth ar y manylion cyswllt sy'n cael eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Ar hyn o bryd, nid yw 14% o ddarparwyr gwasanaethau wedi rhoi caniatâd i AGC gyhoeddi eu rhifau ffôn ar gyfeiriadur ar-lein AGC. Er nad ydynt wedi rhoi rheswm, mae'n nodi bod lleiafrif o ddarparwyr yn debygol o ffafrio opsiwn un.

Gallai cyhoeddi cyfeiriadau e-bost yr holl wasanaethau arwain at gynnydd mewn cyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, yn enwedig gan na fyddai AGC yn gweithredu fel y brif sianel ar gyfer cyfathrebu gan sefydliadau eraill. Efallai na fydd darparwyr yn croesawu'r cynnydd hwn mewn e-byst ac, o'r herwydd, efallai y byddai'n well ganddyn nhw opsiwn un. Cafodd hyn ei brofi yn ystod y cyfnod ymgynghori. O blith 25 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad, roedd y mwyafrif o blaid ei gwneud hi'n orfodol i rif ffôn a chyfeiriad e-bost gwasanaeth gael eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau.

Amlygodd un ymatebydd y risg y bydd rheolwyr neu Unigolion Cyfrifol yn wynebu camdriniaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd pe bai eu

[1] Arolwg Toriadau Seiberddiogelwch 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

manylion cyswllt personol yn hysbys. Dywedodd yr ymateb, "mae rheolwr wedi gweld defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd yn cael gafael ar eu rhif personol ac wedi wynebu lefel o gam-drin sy'n annerbyniol. Er bod yr angen i fod yn agored yn cael ei werthfawrogi, mae'n rhaid i ni gydbwyso hyn gyda'n dyletswydd gofal i staff, gan gynnwys yr Unigolyn Cyfrifol." Er mwyn lliniaru'r risg hon, efallai y bydd darparwyr gwasanaeth yn dymuno creu cyfeiriad e-bost generig ar gyfer y gwasanaeth, yn hytrach na defnyddio cyfeiriad e-bost personol neu gyfeiriad e-bost gwaith y rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol. Rydym o'r farn bod digon o amser i ddarparwyr gwasanaethau ddiweddaru eu manylion cyswllt gyda AGC cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

**Opsiwn dau: creu'r rheoliadau sy'n gorfodi cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

Bydd ei gwneud yn ofynnol i rif ffôn a chyfeiriad e-bost ar gyfer pob gwasanaeth gael ei gyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau yn creu cysondeb yn yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar gyfeiriadur ar-lein AGC. Bydd hyn yn sicrhau y gall aelodau'r cyhoedd, fel aelodau teulu unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig, gysylltu â'r gwasanaethau os oes ganddynt unrhyw ymholiadau neu bryderon. Bydd hefyd yn cynyddu atebolrwydd a gwelededd darparwyr gwasanaethau. Mae dibynnu ar ddarparwyr gwasanaethau i roi caniatâd i'w manylion cyswllt gael eu cyhoeddi wedi arwain at anghysondebau yn yr wybodaeth ar y cyfeiriadur, gan nad yw 14% o ddarparwyr wedi rhoi eu caniatâd i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi, gan greu bwlch mewn gwybodaeth ar y gofrestr.

Bydd mynnu cyfeiriad e-bost a rhif ffôn yn darparu dewis i bobl, gan wneud cysylltu â gwasanaethau yn fwy hygyrch. Bydd hyn o fudd i bobl â nam ar y synhwyrau, fel y rhai â nam ar eu clyw, a allai fod yn well ganddynt ddefnyddio e-bost.

Fel yr amlygwyd yn yr adran ar gostau, bydd cyhoeddi manylion cyswllt y gwasanaeth yn ei gwneud hi'n haws i dîm Gwybodaeth a Dadansoddi Data a thîm Cyfathrebu AGC gyflawni eu gwaith, gan na fydd angen iddynt ofyn am ganiatâd i rannu manylion cyswllt gwasanaeth. Bydd hyn yn arwain at ymatebion mwy effeithlon i geisiadau am wybodaeth.

**<u>Risgiau</u>**

**Opsiwn un: gwneud dim – peidio â chreu rheoliadau i ragnodi gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo lles pobl o bob oed sydd angen gofal a chymorth. Dylai pobl sy'n byw mewn gofal preswyl neu sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig eraill a'u cynrychiolwyr a'u teuluoedd allu cysylltu â gwasanaethau i godi pryderon neu ofyn cwestiynau. O dan yr opsiwn hwn, mae risg na fydd pobl yn gallu cysylltu â gwasanaethau pan fydd angen, naill ai oherwydd nad yw'r wybodaeth yno neu

nad yw'n hygyrch.

Mae opsiwn un yn dibynnu ar ddarparwyr gwasanaethau yn rhoi caniatâd i'w manylion cyswllt gael eu cyhoeddi sydd wedi arwain at anghysondebau yn yr wybodaeth a ddarperir a diffyg gwelededd ar gyfer gwasanaethau. Ar hyn o bryd, nid yw 14% o ddarparwyr gwasanaethau wedi cydsynio i rifau ffôn eu gwasanaeth gael eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau. Nid yw hyn yn gyson â'r egwyddorion o fewn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o ran tryloywder ac atebolrwydd i ddarparwyr gwasanaethau.

**Opsiwn dau: creu'r rheoliadau sy'n gorfodi cynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau**

Ar hyn o bryd, nid yw AGC yn cyhoeddi cyfeiriadau e-bost gwasanaeth ar ei wefan; fodd bynnag, pan fo caniatâd wedi ei roi, bydd yn rhannu manylion cyswllt â'r cyhoedd a sefydliadau eraill ar gais. Er bod cyfeiriadau e-bost gwasanaethau felly yn gyhoeddus, gallai eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau, lle maent ar gael mewn un lle, arwain at gynnydd mewn negeseuon e-bost diangen at wasanaethau, gan gynnwys post sothach neu negeseuon a allai fod yn ymosodol gan bobl sydd wedi cael profiadau gwael gyda'u gwasanaeth. Gallai hyn fod yn straen i reolwyr gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol. Gallai cynnydd cyffredinol yn nifer yr e-byst arwain at golli negeseuon pwysig gan AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru neu sefydliadau allweddol eraill.

Gallai ei gwneud yn orfodol i gyfeiriadau e-bost gwasanaethau gael eu cyhoeddi ar y gofrestr o ddarparwyr gwasanaethau arwain yn anfwriadol at gyhoeddi gwybodaeth bersonol os oedd y cyfeiriad e-bost yn cynnwys enw, fel enw'r Unigolyn Cyfrifol neu'r rheolwr cofrestredig. Ar hyn o bryd, mae 31% o gyfeiriadau e-bost gwasanaethau a gyflwynir i AGC yn cynnwys enwau. Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth bersonol gael ei chynnwys yn y cyfeiriad e-bost, fodd bynnag, ac mae gan ddarparwyr yr opsiwn o greu cyfeiriad e-bost generig ar gyfer eu gwasanaeth. Rydym o'r farn bod digon o amser i ddarparwyr gwasanaethau newid eu cyfeiriadau e-bost cyn i'r Rheoliadau ddod i rym, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fel rhan o'r broses o weithredu'r Rheoliadau hyn, bydd AGC yn ysgrifennu at wasanaethau i'w hannog i wirio eu manylion cyswllt a'u diweddaru os oes angen.

Oherwydd y newid yn nhermau diogelu data o gyhoeddi'r wybodaeth hon drwy gydsyniad i rwymedigaeth gyfreithiol, rydym wedi ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 36(4) o Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data. Ar ôl ystyried y cyflwyniad, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dweud nad oes angen ymgysylltu ymhellach.

**<u>Casgliadau</u>**

Ar sail arfarnu’r costau, y manteision a’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r ddau opsiwn, ffefrir opsiwn dau.